# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cofnodion (SJR(2)-12-06)

### Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Iau 21 Medi 2006
### Amser y Cyfarfod: 9.30am – 12.25pm
### Lleoliad y Cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau'r Cynulliad oedd yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Laura Ann Jones | Dwyrain De Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Leanne Wood | Canol De Cymru |

#### Swyddogion oedd yn bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Emyr Roberts | Cyfarwyddwr – yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Linda Whittaker | Cyfarwyddwr Tai |
| Jo Jordan | Cyfarwyddwr yr Uned Ddiogelwch Gymunedol |
| Anne Stephenson | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Cymunedau |
| Karen Eveleigh | Gwasanaethau Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau |
| Geoff Marlow | Yr Adran Dai |

#### Eraill oedd yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli (os yn berthnasol) | Eitem(au) ar yr agenda |
|---|---|---|
| Richard Collins | Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | 7 |
| Paul Davies | Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | 7 |
| Tom Jones | Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | 7 |

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Virginia Hawkins | Clerc Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1:Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon, a Datgan Buddiannau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Nid oedd unrhyw ddatgan buddiannau

1.3 Mae cofnod gair am air o’r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Papur: SJR(2)-12-06 (min)**

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 6 Gorffennaf 2006.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.1) Atodiadau A, B, C, D, 1**

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn i Aelodau ar y diweddariad llafar a roddodd yn y Pwyllgor ar

21 Medi

Cytunodd y Gweinidog i gael ac i ddosbarthu’r costau a dalwyd gan y pedwar Heddlu yng Nghymru fel rhan o’r broses uno arfaethedig a hefyd i’n diweddaru ar sefyllfa’r heddluoedd gyda golwg are eu cais i’r arian gael ei ad-dalu gan y Swyddfa Gartref.

Cytunodd y Gweinidog i adrodd i’r Pwyllgor ar ganfyddiadau’r ymgynghoriad ar y Cynlluniau Gostwng Risg gan y Gwasanaethau T?ac Achub.

Cytunodd y Gweinidog i ddiweddaru’r Pwyllgor yn rheolaidd ar y Grant Cefnogi Pobl yn arbennig y trefniadau fformiwla.

Trwy drafodaethau gyda NOMS, cytunodd y Gweinidog i edrych ar fater diffyg arian ar gyfer rhaglenni i rai sy’n cyflawni troseddau rhyw a throseddau trais yn y cartref mewn carchardai a chyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i wneud ymholiadau am y nifer o geiswyr lloches digwmni sy’n blant yng Nghymru a chyflwyno adroddiad ar y mater.

Cytunodd y Gweinidog i anfon nodyn i’r Pwyllgor ar faterion cyllidebau y Cynllun HEES

Cytunodd y Gweinidog i geisio sicrhad ar statws cyfreithiol a chynnwys (iaith, gwybodaeth gymuned) oedd yn wreiddiol i gael eu cynnwys yn y Pecynnau Gwybodaeth Cartrefi a chyflwyno adroddiad ar y mater.

Cytunodd y Gweinidog i edrych a allai ymchwil pellach ddigwydd i farwolaethau gormodol yn y gaeaf

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu’i haraith bwysig ar "Yr angen am dai" sydd i’w chyflwyno yng Nghynhadledd Cymru'r Sefydliad Tai Siartredig ar 24 Hydref

Cytunodd y Gweinidog i ddiweddaru’r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud ?harchar Prescoed.

Cytunodd y Gweinidog i rannu’r Ymchwil Digartrefedd Gwledig gyda’r Pwyllgor pan fyddai ar gael.

Cytunodd y Gweinidog i rannu’r Ymchwil Cylch Tai Cymdeithasol gyda’r Pwyllgor

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.2) Atodiad (Atodiadau)**

Nodwyd y papur

**Camau Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu’r ffigurau 2006/07 ar wariant ar y gwasanaethau alcohol a chyffuriau o’r gronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau pan fyddent ar gael.

Cytunodd y Gweinidog i wirio beth ddigwyddodd i’r data yn ymwneud ?hrofi positif am gyffuriau yn yr "Ardaloedd Profi am Gyffuriau wrth Gyhuddo" ble’r oedd yr unigolion oedd yn profi’n bositif heb gael eu collfarnu am drosedd yn dilyn hynny.

Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio ble’r oedd Gwasanaethau Therapi wedi’u sefydlu fel cam i atal camddefnyddio sylweddau a chyflwyno adroddiad ar y mater.

**Eitem 5: Is ddeddfwriaeth**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.3) Atodiad 1, 2**

Nodwyd y papur

**Eitem 6: Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.6) Atodiad A, B**

Nodwyd y papur

**Cam Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i rannu gyda’r Pwyllgor yr arfarniad ar y cynlluniau peilot dan Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan pan fyddai ar gael

**Eitem 7: Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.5)**

Croesawodd y Cadeirydd Richard Collins, y Cyfarwyddwr Polisi, Tom Jones, Comisiynydd Cymru a Paul Davies, Cyfarwyddwr Cymru y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i’r Pwyllgor a gwahoddodd hwy i wneud eu cyflwyniad ar y newidiadau strwythurol sy’n digwydd yn y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

**Eitem 8: Adolygiad Polisi: Digartrefedd ymhlith yr Ifanc**

**Papur: SJR(2)-12-06(p.6) Atodiad**

Cytunodd yr aelodau i wneud adolygiad i ddigartrefedd ymhlith yr ifanc a byddent yn trafod y maes/meysydd penodol gyda’r Clerc yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Medi

Papur i'w nodi: Deddfwriaeth Ewropeaidd

**Papur: SJR(2)-12-06(p.7) Atodiad**

Nodwyd y papur